

RHESTR WIRIO AILGYLCHU A GWASTRAFF

Os ydych yn ddeiliad trwydded Tŷ Amfeddiannaeth, fel rhan o amodau eich trwydded, chi sy'n gyfrifol am sicrhau bod y cynwysyddion ailgylchu a gwastraff cywir ar gael cyn i'ch tenantiaid symud i mewn. Os nad ydych yn ddeiliad trwydded Tŷ Amfeddiannaeth, mae ymchwil yn nodi bod myfyrwyr yn dal i ddisgwyl i wybodaeth am ailgylchu a gwastraff ddod gan eu landlord.

Yn Llety Caerdydd, rydym am sicrhau bod gan fyfyrwyr yr holl offer ailgylchu a gwastraff sydd eu hangen arnynt, cyn iddynt symud i mewn, i ddelio â hyn yn gyfrifol.

Dyna pam yr ydym wedi datblygu'r rhestr wirio gyfleus hon i chi ei chwblhau.

Cynwysyddion ailgylchu

Ticiwch y blwch

CADI CEGIN A BAGIAU



Dylai fod cadi cegin ym mhob cegin yn yr eiddo. Ar gyfer tai amfeddiannaeth mwy, gyda chyfleusterau a rennir, efallai yr hoffech ystyried archebu mwy nag 1. Does dim angen i chi ddefnyddio cadi a gyflenwir gan y cyngor yn eu cegin - gwnaiff

Ticiwch y blwch

CADI YMYL Y FFORDD



Pan fydd cadi cegin yn llawn, dylai'r bag fod wedi'i glymu a'i roi yn y cadi ymyl y ffordd i'w gasglu. Os yw'ch eiddo wedi'i rannu'n fflatiau unigol, dylai pob fflat gael ei gadi ymyl y ffordd ei hun.

Ticiwch y blwch

BAGIAU AILGYLCHU



Defnyddir bagiau ailgylchu i gasglu deunydd pacio sych a glân.

Ticiwch y blwch

TAFLENNI AILGYLCHU A GWASTRAFF



Mae lawrlwythiadau electronig ar gael yn cardiffdigs.co.uk. Dylai copïau o'r rhain fod ar gael yn eich eiddo, mewn ardaloedd cymunedol ac o fewn unrhyw gyfarwyddiadau cartref y gallech eu darparu.

Cynwysyddion gwastraff na ellir ei ailgylchu (cyffredinol)

Ticiwch y blwch

BINIAU DU

Os nad oes gan eich eiddo'r nifer cywir o finiau, bydd angen i chi wneud taliad o £25 ar gyfer pob bin newydd drwy gysylltu â C2C ar (029) 2087 2088.

Gallwch hefyd ofyn am gymorth i gynnal archwiliadau bin yn eich eiddo, i benderfynu beth sydd ei angen.

Pan fydd eiddo wedi ei droi'n fflatiau unigol, dylai fod gan bob fflat

fin 140L. I gael gwybod y lwfans cywir ar gyfer eich eiddo, ewch:

www.caerdydd.gov.uk/cynlluniogwastraff



OFFER AM DDIM

Gellir archebu'r holl offer ailgylchu ar app Cardiff Gov, neu drwy ymweld â www.caerdydd.gov.uk/ailgylchu. Bydd angen i chi wneud archeb ar gyfer pob eiddo unigol os ydych yn defnyddio'r app neu'r wefan. Os hoffech osod archeb swmp fel y gallwch ddsbarthu ymhlith eich eiddo, ewch i www.caerdydd.gov.uk/ailgylchu a dilynwch y ddolen i archebu bagiau. Llenwch y ffurflen cysylltu â ni. Byddwn yn cysylltu â chi i drefnu.



MAE PAWB YNG
NGHAERDYDD
WRTHI!
[#caerdydynailgylchu](https://www.caerdydd.gov.uk)

